# GODWIN, FRANCIS (1562 - 1633), ysgolhaig, hanesydd, a hynafiaethydd



**Enw:** Francis Godwin
**Dyddiad geni:** 1562
**Dyddiad marw:** 1633
**Rhiant:** Thomas Godwin
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** ysgolhaig, hanesydd, a hynafiaethydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Glyn Roberts

Ganwyd yn Hannington, swydd Northampton, yn 1562. Dewiswyd ef yn esgob Llandaf yn 1601 yn gydnabyddiaeth am ei *Catalogue of Bishops of England* (arg. 1af, 1601; arg. newydd, 1615; arg. yn Lladin, 1616). Cyn hynny, bu'n dal amryw swyddi eglwysig yn ne orllewin Lloegr, lle yr oedd ei dad, Thomas Godwin, yn esgob Bath a Wells (1584-90). Cafodd ei ddyrchafu i fod yn esgob Henffordd yn 1617; yno, fel yn Llandaf, cyhuddwyd ef o Simoniaeth. Ychydig sydd ar glawr am ei hanes pan yn esgob Llandaf oddieithr iddo dreulio'i amser yn diwygio ei *Catalogue*, gan anwybyddu bron yn gyfan gwbl y cynnydd ymysg y Pabyddion yn yr esgobaeth. Bu farw Ebrill 1633.

## Awdur

**Yr Athro Glyn Roberts**, (1904 - 1962)

## Ffynonellau


*Oxford Dictionary of National Biography*

Foster, *Alumni Oxonienses*

E. J. Newell, *Diocesan History of Llandaff* (1902)

*Reports of the Historical Manuscripts Commission*, Wells MSS., ii, 346-7


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 29652713

Wikidata: Q1387711


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu